**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Christine Chapman AC**
Cadeirydd
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Chair
Communities, Equality and Local Government Committee

7 Gorffennaf 2014

Annwyl Christine,

**Gwaith craffu gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith Comisiynydd y Gymraeg**

Fel y nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2014, er bod polisi iaith Gymraeg yn gorwedd yn bennaf o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, mae'r iaith Gymraeg yn fater sy'n berthnasol i bortffolios holl bwyllgorau'r Cynulliad.

Ar y sail honno, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn graffu gyffredinol gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar 2 Gorffennaf 2014. Yn ystod y sesiwn honno, holodd yr Aelodau y Comisiynydd am yr adroddiad ynghylch ei hymchwiliad statudol cyntaf, sef *'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymchwiliad i'r Gymraeg Mewn Gofal Sylfaenol'*, ac am faterion eraill o fewn ei chylch gwaith sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd y materion a drafodwyd, fel y cofnodwyd yng Nghofnod y Trafodion Pwyllgor, o ddiddordeb i'ch Pwyllgor pan fyddwch yn craffu ar waith y Comisiynydd y tro nesaf.

Nododd y Comisiynydd yn ystod y cyfarfod ei bod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb i argymhellion ei hadroddiad mewn perthynas â gofal sylfaenol o fewn chwe mis. Ar y sail honno, rydym yn bwriadu gwahodd y Comisiynydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni o fewn 12 mis.

Yn gywir,

David F. Rees.

**David Rees AC AM**
Cadeirydd – Chair

cc Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk / HSCCommittee@wales.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh